



Cofnodion o Gyfarfod Arbennig o Gyngor Llawn Cyngor Tref Llandeilo a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir, am 6.30 p.m. ar ddydd Iau 20fed Hydref 2005

Presennol: Maer Cyng Colin Jenkins, Cyng Fran Murphy, Cyng Paul Faulkner
Cyng Ros Bellamy Cyng Ieuan Gwyn
Mr. Des Davies (Swyddog Technegol) Mr. Roger Phillips (Clerc y Dref)

Ymddiheuriadau Cyng Hugh Towns, Cyng Richard Wallace, Cyng Roy Davies

6622 / Hydref / 05 Yr Arddangosfa Tân Gwylt

Mae'n ymddangos bod gohebiaeth a dderbyniwyd oddi wrth Mr Geraint Price yn gwrth-ddweud y penderfyniadau a gymeradwywyd gan y Cyngor yng Nghofnod 6618 / Hydref / 05.

Cynhaliwyd cyfarfod arbennig er mwyn egluro materion gan fod yna rai newidiadau yn rhai o fanylion y digwyddiad.

Esboniodd Cyng Paul Faulkner wedi iddynt ofyn i Yswirwyr yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol eu bod yn anhapus i'r cae wrth ymyl y cae Rygbi gael ei ddefnyddio fel y prif faes parcio.

Roeddynt wedi cysylltu â Mr Price i'w hysbysu am hyn.

Y Clwb Rygbi ei hunan oedd wedi llogi'r reidiau i blant a chytunwyd y dylai'r Clerc ysgrifennu at y Clwb Rygbi yn nodi, mai'r Clwb Rygbi oedd yn gyfan gwbl gyfrifol am y reidiau pe bae damwain yn digwydd.

Mae'r swyddog Technegol wedi cwrdd â Mr Price yng Nghae William i drafod lle fydd y reidiau yn cael eu gosod ac i wneud yn siŵr fod yna ddau le parcio yn cael eu cadw ar gyfer cerbydau brys. Bydd lle i 108 o gerbydau i barcio a dim mwy.

Mae'r Heddlu yn barod i gerbydau eraill barcio ar hyd ymyl y briffordd cyn belled â'r Orsaf Heddlu.

Bydd Cynghorwyr a stiwardiaid eraill yn gallu parcio cerbydau ar hyd y rhodfa sy'n arwain i'r cae wrth ymyl. Cynhelir cyfarfod o'r holl stiwardiaid a Chynghorwyr fydd yn helpu yn ystod y digwyddiad ar nos Fawrth, 25ain Hydref yng Nghae William am 7.30pm a hynny oherwydd dibenion hyfforddi ac i egluro'r tasgau a roddir i unigolion. Cynghorwyr fydd yn gyfrifol am ofalu am y gatiâu.

Roedd pawb o blaid yr holl fanylion hyn.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.30 pm.